

BA Dylunio Graffeg

Research in Context (ADAD5003/C)

With an emphasis on Welsh language, Culture or Identity, choose a theme or focus on creative practitioners relevant to your field of study and critically analyse your choices.

Traethawd: Beth sydd wedi dylanwadu ar symbolaeth hunaniaeth weledol Cymru a'i ddatblygiad hyd at y cyfnod y presennol ?

Nifer o eiriau: 2,727

Llyfryddiaeth 27ain o Dachwedd 2024

Tudalen Cynnwys

1. Cyflwyniad a datganiad thesis: Tudalen 3
2. Pareidolia; sut ydych chi'n dehongli hunaniaeth weledol Cymru?: Tudalen 4
3. Symbolaeth o frwydr: Tudalen 9
4. Brand Cymru: Tudalen 12
5. Casgliad: Tudalen 18


‘O, bydded i'r hen iaith barhau!’ (James, E. 1856). Beth ydych chi’n teimlo wrth i chi ddarllen y frawddeg yma? Balchder neu warth? Dros y canrifoedd diwethaf, mae yr iaith wedi bod yn rhyfela i gadw yn fyw yng Nghymru ar ôl wynebu nifer fawr o ragfarn, ac mae penderfyniad Evan James i roi y frawddeg yma ar ddiwedd yr anthem genedlaethol yn symbolaidd o neges i'r Cymry; dylent frwydro dros gadw'r iaith yn fyw, tan y diwedd. Gall frwydr yr iaith cael ei chynrychioli trwy waith celf ac elfennau dylunio hefyd, ac wrth ystyried hanes yr iaith Gymraeg dros y canrifoedd diwethaf, ydy hyn wedi dylanwadu ar symboleiddio hunaniaeth Cymru yn weledol?

Yn y traethawd hwn, byddaf yn ymchwilio a dehongli hunaniaeth weledol Cymru trwy adlewyrchu ar sut mae symbolaeth wedi dylanwadu ar wahanol elfennau gweledol. Wrth gyfeirio at ystod eang o elfennau, byddaf yn cydnabod gyda yr elfen o hauntoleg a thrafod pa fath o effaith bydd y dylanwad hwn yn cael ar ddyfodol hunaniaeth weledol Cymru. Yn bersonol, credaf bydd hi’n ddiddorol i weld sut mae Cymru wedi dyfalbarhau, a sut caiff hyn ei gynrychioli yn weledol ac ei ddatblygu mewn i'r elfennau Cymraeg rydym yn gweld heddiw. Credaf bod hi’n bwysig inni fel dylunwyr Cymraeg ddeall taith weledol ein cenedl, i gofio beth rydym yn cynrychioli a dysgu sut y gallwn ddatgan ein taith ddylunio a hunaniaeth yn weledol.

Er mwyn adlewyrchu gwahanol ddehongliadau o hunaniaeth weledol Cymru, byddaf yn pwyso a mesur pynciau, megis y cysyniad o bareidolia, a beth mae Cymru yn cynrychioli i ni; dehongli symbolaeth elfennau megis Fflag Cymru; ac yna cydnabod y datblygiad tuag at frand swyddogol Cymru a darogan y dyfodol dros symbolaeth Cymraeg.

Pareidolia; sut ydych chi'n dehongli hunaniaeth weledol Cymru?

Bydd pawb yn dehongli symbolaeth tu ôl i elfennau Cymraeg yn wahanol, a 'The tendency to perceive a specific, often meaningful image in a random or ambiguous visual pattern' (Merriam-Webster, 2024) yw y ddiffiniad o pareidolia. Gallwn adlewyrchu y thema yma trwy ddehongli arwyddocâd patrymau Celtaidd, a sut mae hyn yn berthnasol i'r elfen o hauntoleg sef 'haunted by a nostalgia for all our lost futures' (Gallix A. 2011), a ystyrir fel elfen annatod o ddiwylliant Cymraeg.



Bain (1951, p.67) *Celtic Art; The Methods Of Construction*

Dyma ffynhonnell o waith celf Celtaidd sydd wedi dod o'r Llyfr Durrow a'r Llyfr Kells, sef 'an illuminated manuscript depicting the four gospels of the Christian New Testament written in Latin' (Diffley A., 2024). Er bod 'the Art of the Celt had beginnings thousands of years before Christ' (Bain. G, 1951, p16), byddai nifer o Gymry yn dehongli yr elfen o annatod yn y gwaith celf, canys caiff y patrwm troellog Celtaidd ei ddehongli fel 'a beginning at the dawn of man's intellect' (Bain. G, 1951, p59).

Er bod yr awdur George Bain wedi ysgrifennu y llyfr gyda'r bwriad o ddysgu disgyblion sut i greu celf a phatrymau Celtaidd, gallwn ddadlau bod y thema o bareidolia yn bresennol wrth gydnabod y ddilyniant geometrig mathemategol yn y patrymau. Wrth gyfuno y ddau elfen o grefydd a mathemateg, mae'n awgrymu bod ystyr arwyddocaol dros y ddechreuad o symbolaeth yn hunaniaeth Cymru, a byddai nifer yn ei ddehongli bod dechreuad celf a diwylliant Cymraeg wedi eu creu gan ddylanwad duwiol; fel y patrymau uchod lle cafodd nifer o fanylion bach eu hystyried yn ofalus i greu patrwm brydferth.



Cadwyn Cyf (2024), Llwy Garu

Caiff y cyfuniad o batrymau Celtaidd a thema cariad eu datblygu yn bellach i gyfnod y presennol i'r defnydd o lwyau garu, a oedd yn symbolaidd o gariad a 'the start of a serious courtship' (Thornton. Z, 2001, P44). Gan gydnabod y thema o bareidolia, byddai nifer yn

dehongli cysylltiad emosiynol naturiol gyda neges gudd o gariad yn y patrymau Celtaidd Cymreig. Mae rhain yn esiamplau da o ‘ddarlun byw o’r gorffennol’ (Peate I.C. 1948), a bydd nifer o bobl heddiw yn cysylltu yr emosiwn o gariad yn naturiol heb ymchwilio hanes y llwy garu, sydd yn atgyfnerthu bod hauntoleg yn rhan annatod o hunaniaeth weledol Cymru.



Vosper (1908) Salem

Dyma paentiad dyfrliw Salem a gafodd ei beintio yng Ngogledd Cymru yn 1908 sydd yn cael ei ddisgrifio fel ‘artistic icon’ (LL.G.C, 2024) dros hunaniaeth Cymru. Mae’n dangos ‘Siân

Owen, aelod o'r gynulleidfa yn gwisgo gwisg traddodiadol Cymreig yng Nghapel Salem.


Mae'r baentiad yma yn boblogaidd iawn yng Nghymru canys roedd nifer o bobl yn datgan y gellir gweld wyneb y diafol yn y siôl; enghraifft o bareidolia' (LL.G.C, 2024).

Atgyfnerthir y baentiad yma yr elfen o hauntoleg yn niwylliant Cymraeg trwy ddatgan y patrymau Celtaidd ar y siôl yn yr ugeinfed ganrif, ac hefyd yr elfen crefyddol trwy leoli y baentiad yn y capel. Yn debyg i'r ffynhonnell cyntaf, mae'n amlwg bod cyfuniad o batrymau Celtaidd a chrefydd yn awgrym o ddylanwad dros hunaniaeth weledol Cymru. Caiff symbolaeth y diafol ei ddehongli fel 'the embodiment of evil, a figure of temptation, and a potential foil to God' (University of Kent, 2024), ag felly gwrthwynebir dehongliad patrymau y ffynhonnell yma gyda dehongliad patrymau y ffynhonnell uchod. Awgryma'r ffynhonnell cyntaf bod y patrymau Celtaidd yn datgan symbolaeth duwiol, ond mae presenoldeb symbolaeth y diafol yn y ffynhonnell yma yn cyferbynnu gyda'r ddisgrifiad yma, ac yn datgan symbolaeth drygionus.

Mae'n amlwg i weld ar ôl dadansoddi'r ddau ffynhonnell bod hauntoleg yn ddylanwad cryf dros symboleiddio hunaniaeth weledol Cymru gyda'r cyfuniad o grefydd a phatrymau yn bodoli ers oes y Celtaidd (1000 C.C) tan yr ugeinfed ganrif. Serch hynny, er bod y ddau yn rhannu yr un elfennau weledol, mae yna risg o gamddehongli wahanol ystyron sydd yn gallu camliwio arwyddocâd diwylliannol y dyluniad, ag felly mae pareidolia yn elfen wan dros gynrychiol hunaniaeth weledol Cymru. Adlewyrchir y dadl yma un o elfennau craidd hunaniaeth weledol Cymru, sef hauntoleg, ac hefyd wedi sbarduno ymchwiliad bersonol i bawb ar beth sydd yn cynrychioli Cymru iddyn nhw.

Symbolaeth o frwydr

Elfen craidd arall o ran hunaniaeth weledol Cymraeg byddai pawb ym ymwybodol ohono yw Fflag Cymru, yn enwedig y ddraig goch , a chaiff ei hadnabod fel ‘the national symbol of Wales’ (Koch J.T, 2005, P610). Wrth gydnabod y thema o bareidolia, sef teimlo emosiwn tu ôl cysylltiad neges gudd elfen weledol, byddai nifer yn cytuno mai Fflag Cymru sydd yn cyflawni hyn yn gryfach. Trwy ystyried hanes mae’r wlad a’r iaith wedi wynebu mae’n gwneud i ni gwestiynu sut mae’r fflag yn cynrychioli cryfder hunaniaeth weledol Cymru.



Britannica (2024), Fflag Cymru

Caiff symbolaeth y ddraig ei ystyried fel zoomorphics, sef ‘based upon the forms of animals, birds and reptiles’ (Bain. G, 1951, p. 101) a dechreuodd dreigiau ‘Originating in

mythic symbolism and narrative' (Koch J.T., 2005, p 609). Cawson nhw eu cynrychioli mewn cerddi cynnar Cymraeg fel 'the virtues of warriors and leaders' (Koch J.T., 2005, p 610). Roedd cysylltiadau brenhinol gyda'i symbolaeth wrth i feibion Owain ap Maredudd ap Tudur ddefnyddio 'the red dragon as heraldic devices' (Koch J.T., 2005, P610). Deilliwyd y term Heraldry o'r gair 'herald' sydd yn golygu 'messenger' (Pastoureau. M, 1997, p73) ac mae'n amlwg bod y ddraig goch yn symbylu elfennau o wladgarwch a breindal.

Atgyfnertha'r elfen brenhinol trwy'r lliw coch, canys 'it represents fire ...this colour too, according to ancient laws should be rarely worn except by great princes or those nearest them in blood' (Dennys. R, 1975, p.46).

Mae tystiolaeth cryf wrth gyfeirio at goch fel 'the hierarchy of colour, with red at the top' (Gage. J, 1999, P 112) bod fflag Cymru yn symboleiddio gwerthoedd cryf y wlad. Mae'r fflag yn ennyn elfennau allweddol o ran hanes Cymru, a'i dyfalbarhad i gynnal hunaniaeth ddiwylliannol ar ôl wynebu rhagfarn gan ddigwyddiadau, megis y 'Welsh Not, lle roedd Llywodraeth Prydain yn ceisio lladd yr iaith trwy gosbi disgyblion a oedd yn siarad Cymraeg' (FelinFach, 2024). Datganiwyd y fflag neges am frwydr yr iaith, a'i chryfder o ddyfalbarhau i symboleiddio Cymru yn y presennol; yn sefyll fel datganiad o wytnwch. Gallwn ddehongli y fflag fel arwyddlun y gorffennol, y presennol a hyd yn oed y dyfodol, yn symboleiddio taith y frwydr; ac yn atgyfnerthu y thema annatod o hauntoleg. Yn uno hanes, mytholeg a dyheadau modern mewn i elfen herfeiddiol, bydd y fflag yn parhau i sefyll fel negesydd dros athroniaethau craidd y wlad, a chryfder ei hunaniaeth.



Land of Legends (2024), Cofiwch Dryweryn

Dyma lun o liwiau y fflag sef coch, gwyn a gwyrdd ar elfennau ffisegol. Gwaith graffiti fel ffordd o brotestio yn erbyn ‘boddi Capel Celyn. Wedi ei leoli ger Llanrhystud, cafodd y ddatganiad graffiti yma ei greu fel ymateb grac y Cymry pan wnaeth Llywodraeth Prydain boddi Capel Celyn, tref yng Ngogledd Cymru’ (land of legends, 2024). Symboleiddiodd y ddatganiad yma frwydr Cymru yn erbyn rhagfarn dros amddiffyn ei hiaith, tir a hunaniaeth, a byddai nifer yn dadlau ‘gallwch gysylltu y lliw coch gyda’r emosiwn o ddicter’ (Sensational color, 2024) wrth gydnabod hanes y wal. Caiff y lliw coch hefyd ei ddehongli fel ‘fiery determination and unwavering perseverance’ (Medium, 2023) ac felly fel fflag Cymru, datgana’r wal symbolaeth o frwydr. Gallwn ddadlau bod y thema o hauntoleg yn bresennol yma trwy ffurff ffisegol. Mae’r garreg dal yn sefyll i ddatgan symbolaeth y frwydr


dros hunaniaeth Cymru heddiw, a fydd yn parhau i symboleiddio'r rhyfel dros ei hunaniaeth i'r genhedlaeth o Gymry yn y dyfodol.

Ar ôl pwysu a mesur y ddau ffynhonnell, mae'n amlwg bod y ddau yn rhannu yr un neges trwy ffurf ffisegol a digidol. Y lliw coch yw'r ffactor cyffredin o symboleiddio emosiynau cryf dros Gymru, yn ymchwilio gwahanol onglau, megis dyfalbarhad i ddicter. Atgyfnerthir y ddehongliad yma y thema o bareidolia o ran diwylliant Cymru; ond i wrthwynebu gyda ei ddiffiniad, gallwn ddadlau bydd pawb yn dehongli yr un neges tu ôl i'r fflag. Er gall y lliw coch gynrychioli ystod o emosiynau cryf, yr emosiynau hyn sydd yn ymddwyn fel tanwydd dros angerdd a phwrrpas y wlad. Yng nghyfnod y presennol, bydd pawb yn deall y neges o gryfder symbolaeth cadarn y ddraig goch; yn wahanol iawn i'r ystod o emosiynau rydym yn dewis i deimlo trwy ddehongli'r patrymau Celtaidd. Ar ôl ystyried arwyddocâd y lliw coch, y tebygrwydd yw bydd ei negeseuon cudd yn gyrru angerdd y wlad i ddatblygu elfennau gweledol Cymraeg gyda phwrrpas a balchder, tra'n cadw symbolaeth craidd hanes Cymru.

Brand Cymru


Wrth symud o'r gorffennol i'r presennol, cafodd angerdd dros hanes y wlad ei esblygu mewn i Frand Cymru, cynrychiolaeth weledol fodern o hanes a neges y wlad. Er bod pethau wedi newid o'r ugeinfed ganrif i gyfnod y presennol, mae'n gwneud i ni gwestiynu os yw negeseuon symbolaeth Cymru dal yn cael eu datgan, ac os mae hauntoleg wir yn elfen annatod dros hunaniaeth weledol Cymru.

Elfen weledol unigryw sydd newydd cael ei ddatblygu yw ffurfdeip Cymru. 'Typography is concerned with both the creation of typefaces and their arrangement to convey a message' (Baines, P. & Haslam, A., 2002, p.6), ac felly bydd hi'n ddiddorol i weld os mae ffurfdeip Cymru yn adlewyrchu yr un neges â fflag Cymru neu beidio.



Bain (1951, p.89) *Celtic Art; The Methods Of Construction*


Dyma ffynhonnell o'r llyfr 'Celtic Art; The Methods Of Construction' gan George Bain lle mae'n arddangos cymeriad cursive ac afieithus y ffurfdeip Celtaidd yma. Byddai nifer o Gymry'n dadlau bod y symbolaeth Celtaidd o fewn y ffurfdeip yn rhan annatod ac unigryw o ddiwylliant Cymraeg; gan ei fod yn un o esiamplau mwyaf cynnar o hunaniaeth weledol Cymru.



Smörgåsbord (2024), Cymru Wales font family

Atgyfnerthir yr elfen o hauntoleg fel arwydd dros hunaniaeth weledol Cymru wrth i'r thema Celtaidd cael ei ddefnyddio fel ysbrydoliaeth i Smörgåsbord i greu ffurfdeip swyddogol Cymru. Roeddent eisiau cynrychioli yr hanes weledol o ddylunio, ond hefyd adlewyrchu yr elfen modern ar yr un pryd trwy gyfuno y ffurfdeip Celtaidd gyda ffurffdeip Sans a Serif; 'Our aim with the Cymru Wales font family was to create contemporary European typefaces with a unique personality and a 'sense of place' baked in' (Smörgåsbord, 2024).

Adlewyrchir cydnabyddiaeth yr wyddor Cymraeg a dyluniad unigryw y deugraffau ymdrech o ddathlu a chynnal hunaniaeth genedlaethol Cymru. Trwy integreiddio hanes symbolaeth y patrymau Celtaidd a'i chyfuno gyda ffurfdeip modern, mae'n galluogi hunaniaeth weledol Cymru i sefyll allan, a chael ei adnabod yn fyd-eang. Yn debyg i neges y fflag, adlewyrcha'r ffurfdeip neges o falchder a phwer o ddathliant diwylliannol.



Smörgåsbord (2024), Fflag Cymru

Caiff y thema o hauntoleg ei ddehongli hefyd wrth astudio datblygiad Smörgåsbord o adnewyddu fflag Cymru. Adlewyrchir y ffynhonnell uchod o'r ddraig dadansoddiad dilyniant mathemategol geometrig fel sylfaen i ddylunio fflag Cymraeg newydd isod. Mae hyn yn debyg iawn i ffynhonnell George Bain; lle cafodd y patrymau Celtaidd eu dehongli fel

bod dylanwad duwiol tu ôl y patrymau. Awgrymir y dadansoddiad o'r ddau ffynhonnell bod elfen ddwyfol yn rhan craidd o hunaniaeth weledol Cymru sydd wedi atgyfnerthu cryfder unigrywiaeth ei symbolaeth. Ond, yn debyg i'r ffurfdeip Cymraeg, caiff y cyfuniad o resymeg, hanes a symbolaeth modern y fflag ymhelaethu pwer ei neges; bod hunaniaeth Cymru wedi datblygu yn gryfach dros amser, fel y gallwn weld tu ôl i'r ffynhonnell yma.



Lechwedd

Smörgåsbord (2024), Creative Wales

Uchod gweler ffynhonnell y gallwn ddadlau sydd yn symboleiddio strwythur y draethawd yma. Ar glawr y cylchgrawn, gallwn ddehongli nodweddiad y patrymau Celtaidd yn y ffurfdeip, y ddraig goch wedi ei lleoli yn feiddgar yn y gornel, a symbolaeth o gyfuniad hanesyddol a modern diwylliant Cymru yn y ddau elfen. Gallwn gadarnhau bod hauntoleg yn elfen craidd o ran hunaniaeth weledol Cymru, wrth i elfennau gweledol y gorffennol ddatblygu ac adeiladu symbolaeth weledol Cymraeg y presennol. Serch hynny, cyferbynwyd y lliw monocrom coch uchod gyda chysyniad pareidolia tu ôl y patrymau

Celtaidd er enghraifft. Gellir dehongli neges ein hunain trwy astudio y wahanol patrymau Celtaidd, ond yma un lliw sydd yn datgan yr un neges gadarn o falchder i bawb. Atgyfnerthir hyn y ddadl bod pareidolia yn elfen wan o gynrychioli hunaniaeth weledol Cymru, ac yn amddiffyn y defnydd syml o'r lliw coch i adlewyrchu cryfder symbolaeth Cymru.

Caiff frand Cymru ei dehongli fel cymeradwyaeth dros gynrychioli hunaniaeth Cymru, yn atgyfnerthu thema o wladgarwch gan ddyfynu yr anthem genedlaethol 'gwlad, gwlad' (James, E. 1856) a chynnwys llun o dir a môr Cymru. Ar ôl tystio dylanwad hauntoleg dros hunaniaeth weledol Cymru, byddai nifer yn cwestiynu sut bydd hyn yn effeithio ei dyfodol.

Ar ôl dehongli symbolaeth y lliw coch fel dyfalbarhad, 'ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050' (Llywodraeth Cymru, 2024). Wrth gysylltu dehongliadau semiotics lliw coch y ddraig a wal Tryweryn, mae'n amlwg bod angerdd a balchder wedi ysbrydoli dylunwyr i ddatblygu hunaniaeth weledol Cymru yn bellach fel ffordd o ddathlu y diwylliant. Roedd creu brand swyddogol ar gyfer Cymru yn symboleiddio ffordd o roi Cymru ar y map, wrth i'r frand ddatblygu yn fwy fyd-eang wrth fentro tuag at y dyfodol. Awgryma ddatblygiad symbolaeth weledol Cymru y bydd yr un dylanwad yn effeithio yr iaith; bydd symbolaeth pwerus y wlad yn ysbrydoli pobl i siarad a dysgu Cymraeg, fel ffordd iddynt gysylltu gyda eu gwreiddiau Cymraeg yn gryfach. Ac wrth i'r famiaith ffynnu, bydd hyn yn dylanwadu datblygiad bellach a chryfach dros hunaniaeth weledol Cymru yn y dyfodol.

Ar ôl pwysu a mesur nifer o wahanol ffynonnellau, adlewyrchodd creadigrwydd a rhesymeg dechreudau cynnar o elfennau gweledol Cymraeg, dehonglwyd hanes y wlad tu ôl i

symbolaeth, a dadansoddwn sut cyfunodd y ddau elfen yma i greu symbolaeth weledol Cymraeg modern. Wrth adlewyrchu ar ddatblygiad hunaniaeth weledol Cymru, mae'n amlwg ei fod yn cynrychioli taith; taith yr iaith yn dioddef gan ragfarn, sydd wedi llwyddo ysbrydoli cenedl i frwydro a datblygu brand sydd yn sefyll yn gryfach nag erioed. Trwy ystyried y cysyniad o bareidolia, er y gallwn ddeillio emosiynau personol tu ôl i rai elfennau gweledol Cymraeg, mae hyn wedi newid dros amser wrth i ddefnydd monocrom y lliw coch bwysleisio neges craidd fyd-eang byddai pawb yn deall; sef symbolaeth brwydr a dathliant diwylliant. Trwy gydnabod y thema o hauntoleg ac adlewyrchu cryfder symbolaeth Cymraeg yn cynyddu yn gymesur dros amser, y tebygrwydd yw y bydd neges a balchder symbolaeth hunaniaeth Cymraeg yn ffynnu'n gryfach yn y dyfodol, a fydd yn cael ei ddatgan trwy ei hunaniaeth weledol. Bydd yr angerdd dros ddatblygu brand Cymru yn helpu pobl cysylltu gyda'u gwreiddiau Cymraeg, a darparu adlewyrchiad cadarn a chryf o beth mae'n golygu o fod yn Gymraeg.

Llyfryddiaeth

Bain, G. (1951) *Celtic Art; The Methods Of Construction*, 1st edn. Glasgow: Wm Maclellan Publishers

Baines, P. & Haslam, A. (2002) *Type & typography*. London: Laurence King Publishing Ltd

Britannica (2024) *flag of Wales*

Ar gael trwy: <https://www.britannica.com/topic/flag-of-Wales>

(Derbyn mynediad 27ain o Dachwedd 2024)

Cadwyn Cyf (2024) *Welsh Love Spoons*

Ar gael trwy: [https://www.cadwyngifts.com/collections/welsh-love-](https://www.cadwyngifts.com/collections/welsh-love-spoons?srsId=AfmBOoqfQcV9egIFmcmFp19LvGC-8ZcDUbfg_WuATnuZ4l3sqjyR6Wsf)

[spoons?srsId=AfmBOoqfQcV9egIFmcmFp19LvGC-8ZcDUbfg_WuATnuZ4l3sqjyR6Wsf](https://www.cadwyngifts.com/collections/welsh-love-spoons?srsId=AfmBOoqfQcV9egIFmcmFp19LvGC-8ZcDUbfg_WuATnuZ4l3sqjyR6Wsf)

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Dennys, R. (1975) *The Heraldic Imagination*. England: Barrie & Jenkins Limited

Diffley, A. (2024) *Why is the Book of Kells important?*

Ar gael trwy: [https://www.visittrinity.ie/blog/why-is-the-book-of-kells-](https://www.visittrinity.ie/blog/why-is-the-book-of-kells-important/#:~:text=The%20Book%20of%20Kells%20is%20an%20illuminated%20manuscript%20depicting%20the,New%20Testament%2C%20written%20in%20Latin.)

[important/#:~:text=The%20Book%20of%20Kells%20is%20an%20illuminated%20manuscript%20depicting%20the,New%20Testament%2C%20written%20in%20Latin.](https://www.visittrinity.ie/blog/why-is-the-book-of-kells-important/#:~:text=The%20Book%20of%20Kells%20is%20an%20illuminated%20manuscript%20depicting%20the,New%20Testament%2C%20written%20in%20Latin.)

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

FelinFach (2024) *Welsh Not – A Form of Punishment*

Ar gael trwy: <https://www.felinfach.com/pages/welsh-not-welsh-knot#:~:text=If%20a%20child%20was%20caught,passed%20to%20the%20next%20child.>

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Gage, J. (1999) *Colour and meaning – art, science and symbolism*. United Kingdom: Thames & Hudson Ltd

Gallix, A. (2011) *Hauntology*

Ar gael trwy: <https://andrewgallix.com/2011/07/07/hauntology/>

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Koch, J.T. (2005) *Celtic Culture – A historical encyclopedia*. volume two. California, USA: ABC-CLIO

Land of Legends (2024) *Living Language – Welsh & National Identity*

Ar gael trwy: <https://www.landoflegends.wales/location/cofiwch-dryweryn-graffiti-llanrhystud>

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru (2024) *The painting Salem: A symbol of Welsh identity*

Ar gael trwy: <https://artsandculture.google.com/story/the-painting-salem-a-symbol-of-welsh-identity/MglCibzeuT9aLw>

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Llywodraeth Cymru (2024) *Cymraeg 2050 – A million Welsh speakers*

Ar gael trwy: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-welsh-language-strategy.pdf>

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Llywodraeth Cymru (2024) *Land of my fathers: Wales' national anthem.*

Ar gael trwy: <https://www.wales.com/about/language/welsh-national-anthem>

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Medium (2023) *The colors of emotion and symbolism*

Ar gael trwy: https://medium.com/@colorblind_test/the-colors-of-emotion-and-symbolism-d7e53cb306bc#:~:text=The%20color%20that%20often%20symbolizes,fiery%20determination%20and%20unwavering%20perseverance.

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Merriam-Webster, Incorporated (2024) *Pareidolia Definition & Meaning*

Ar gael trwy: <https://www.merriam-webster.com/dictionary/pareidolia>

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Pastoureau, M. (1997) *Heraldry, its Origins and Meaning*. United Kingdom: Thames & Hudson

Peate, I.C. (1948) *Casglu Cof y Genedl* Ar gael trwy:

<https://museum.wales/articles/2187/Casglu-Cof-y-Genedl/>

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Sensational Color (2024) *Symbolism and Meaning of Red*

Ar gael trwy: [https://www.sensationalcolor.com/meaning-of-](https://www.sensationalcolor.com/meaning-of-red/#:~:text=Symbolism%20And%20Meaning%20Of%20Red&text=Red%20is%20violence%2C%20anger%2C%20and,elicit%20emotion%2C%20and%20convey%20confidence.)

[red/#:~:text=Symbolism%20And%20Meaning%20Of%20Red&text=Red%20is%20violence%2C%20anger%2C%20and,elicit%20emotion%2C%20and%20convey%20confidence.](https://www.sensationalcolor.com/meaning-of-red/#:~:text=Symbolism%20And%20Meaning%20Of%20Red&text=Red%20is%20violence%2C%20anger%2C%20and,elicit%20emotion%2C%20and%20convey%20confidence.)

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Smörgåsbord (2024) *Building and reinforcing a new visual identity for Wales*

Ar gael trwy: <https://www.smorgasbordstudio.com/work/cymru-wales-branding/>

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

Thornton, Z. (2001). The romance of Welsh lovespoons. In *Antiques &collecting magazine* (Vol. 105, Number 12, pp. 44-). Pioneer Communications, Inc

University of Kent (2024) *The Devil in Literature and Film* – CPLT6680

Ar gael trwy:

<https://www.kent.ac.uk/courses/modules/module/CPLT6680#:~:text=From%20the%20ti me%20of%20the,as%20a%20complex%20ethical%20symbol.>

(Derbyn mynediad: 27ain o Dachwedd 2024)

